

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

Pobl Ifanc Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Medi 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1945
Rhif dogfen:13/062

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur ymchwil

Pobl Ifanc Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Medi 2013

Michael Dauncey

Mae'r papur ymchwil hwn yn rhoi trosolwg o'r ystadegau mwyaf diweddar ar nifer y bobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a gyhoeddwyd ar 24 Gorffennaf 2013. Mae hefyd yn gosod cyd-destunau polisi diweddar a chyfredol y strategaethau a'r rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r hyn sy'n broblem hirdymor ac ystyfnig yng Nghymru a thu hwnt. Ymchwilir hefyd i rai o'r heriau a'r materion ehangach sy'n ymwneud â'r pwnc hwn.

Bydd fframwaith newydd ar gyfer ymgysylltu ag ieuenctid yn olynu ac yn disodli Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid 2011-2015 (disgwylir i'r fframwaith gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2013).

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Ystadegau ar nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.....	3
2.1.	Y Datganiad Ystadegol Cyntaf: Ystadegau blynyddol hyd ddiwedd 2012	3
2.1.1.	Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed	4
2.1.2.	Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed	4
2.1.3.	Y cydbwysedd rhwng addysg/hyfforddiant a chyflogaeth	4
2.2.	Bwletin Ystadegol: Ystadegau chwarterol yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth	8
2.2.1.	Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed	8
2.2.2.	Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed	9
2.2.3.	Amrywiadau rhanbarthol	9
2.2.4.	Y cyfraddau ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn ôl awdurdod lleol.....	10
3.	Y cyd-destun polisi yng Nghymru.....	13
3.1.	Targedau	13
3.2.	Datblygiadau yn y Trydydd Cynulliad (2007 - 2011)	14
3.3.	Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid 2011-2015..	15
3.4.	Pontio o'r Cynllun Gweithredu i'r Fframwaith.....	17
4.	Y Rhaglen Lywodraethu a Twf Swyddi Cymru.....	19
4.1.	Y Rhaglen Lywodraethu	19
4.2.	Twf Swyddi Cymru.....	22
5.	Cyd-destun y DU.....	25
5.1.	Cymariaethau rhwng gwledydd y DU.....	25
5.2.	Twf economaidd y DU	26
5.3.	Polisiau Llywodraeth y DU.....	28
5.3.1.	Y Rhaglen Waith	28
5.3.2.	Y Contract Ieuenctid.....	28
5.3.3.	Cynyddu oedran cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant yn Lloegr.. ..	29
6.	Y cyd-destun Ewropeaidd	31
6.1.	Cynlluniau Gwarant i Bobl Ifanc	32
6.2.	Y Fenter Cyflogaeth i Bobl Ifanc	32
7.	Y rhesymau a'r risgiau	33
8.	I gloi: Mynd i'r afael â phroblemau'n gynnar a thracio unigolion sydd mewn perygl.....	35

Pobl Ifanc Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

1. Cyflwyniad

Mae cyfran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi bod yn her sylweddol o ran polisi ers blynyddoedd lawer ac er y gallai'r dirwasgiad¹ a thwf economaidd bach fod wedi gwaethygu'r sefyllfa, nid yw'n fater sydd wedi deillio o hynny yn unig.

Mae cyfradd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yng **Nghymru wedi aros yn gymharol gyson** ers y 1990au **ar oddeutu 10-13 y cant ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.**² Mae'r gyfradd hefyd wedi bod yn gymharol sefydlog yn **Lloegr** yn ystod yr un cyfnod, ar **gyfradd ychydig yn is sef 8-10 y cant**³, a rhwng 11 ac 14 y cant yn yr Alban er 2004⁴. Cesglir ystadegau ar wahân ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ac 19-24 oed.

Nid oes un grŵp penodol o bobl sy'n dod o fewn y categori hwn ac mae'r rheswm dros wneud hynny'n amrywiol ac yn gymhleth. Nodwyd nifer o ffactorau risg, a'r ddau ffactor mwyaf arwyddocaol yw cyflawniad addysgol gwael a statws economaidd-gymdeithasol isel. Mae ffactorau eraill yn cynnwys pobl ifanc yn methu â gweld manteision bod mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant; diffyg cefnogaeth gan y teulu; a diffyg gwybodaeth am amrywiol broffesiynau.⁵

Yn ymarferol, maent yn grŵp amrywiol iawn sy'n cynnwys pobl ifanc ddi-waith sy'n edrych am waith, yn ogystal â'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth nac yn chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae gan eraill gyfrifoldebau gofalu a / neu amrywiol anghenion cymhleth eraill, neu maent mewn cyfnod pontio neu'n cael 'blwyddyn i ffwrdd'.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r defnydd o'r term 'NEET' i gategoreiddio pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi dod i gael ei ystyried gan rai fel label rhy gul a gwrthnysig. Yn 2010, arweiniodd hyn at rybudd gan Leighton Andrews, y cyn Weinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ynghylch peryglon defnyddio'r term 'NEET' fel enw cyffredin:

¹ Roedd y DU mewn dirwasgiad technegol (dau chwarter neu fwy yn olynol o dwf economaidd negyddol) rhwng Chwarter 2 2008 a Chwarter 3 2009. Yn ogystal, gwelwyd twf negyddol neu ddim twf am dri chwarter rhwng Chwarter 4 2011 a Chwarter 2 2012, nad yw, yn dilyn adolygiad ystadegol, yn dod o fewn y diffiniad o ddirwasgiad.

² Llywodraeth Cymru, *Reducing the proportion of young people not in education, employment or training in Wales*, 2009, Ffigur 1, t9 [fel ar 22 Gorffennaf 2013] a'r Datganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013, *Participation of young people in education and the labour market (year end 2011 and 2012 (provisional))*, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013]

³ Yr Adran Addysg (Lloegr), *NEET Statistics - Quarterly Brief - Quarter 1 2013*, 23 Mai 2013, Siart 1: cyfres hanesyddol NEET ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed: cyfres hanesyddol NEET ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed: Lloegr, diwedd 1985 hyd ddiwedd 2012 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

⁴ Llywodraeth yr Alban, *High Level Summary of Statistics Trends - Labour Market*, 20 Mehefin 2013, Data NEET [fel ar 22 Gorffennaf 2012]

⁵ Dyfynnwyd yn Sadler, K. et al, (2011) *Risk factors associated with becoming NEETs: A review of the literature applied to the demographics of the Fenland Area*, Prifysgol Anglia Ruskin, t5-6 [fel ar 18 Gorffennaf 2013]

'If we think and label young people not in employment, education or training as a single category, using the shorthand 'NEET' to define an individual like the word geek, we miss the complexity of the true picture and the individual challenges young people face in life.'⁶

Amlygwyd goblygiadau negyddol defnyddio'r term 'NEET' fel disgrifiad cyffredinol o bobl ifanc gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Trydydd Cynulliad yn ei ymchwiliad yn 2010⁷ lle y disgrifiodd y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr anafanteision y label fel a ganlyn:

The term 'NEET' is *fundamentally* problematic as it classifies a heterogeneous group with one label and is also a negative category.⁸

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uchel i fynd i'r afael â nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae wedi gweithredu amryw o fentrau a rhaglenni ers nifer o flynyddoedd. **Pennwyd targed o sicrhau bod 93 y cant o bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant erbyn 2010 yn 2006⁹ ond ni chyrrhaeddwyd y targed**, yn rhannol oherwydd yr hinsawdd economaidd cyffredinol. Yn y [Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2013](#), a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r targedau newydd canlynol:

- **Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i 9 y cant erbyn 2017.**
- **Lleihau canran y bobl ifanc rhwng 19–24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn gyffredinol erbyn 2017.**

Nod un o brif fentrau Llywodraeth Cymru, **Twf Swyddi Cymru**, yw ceisio mynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid a dywed Llywodraeth Cymru fod hyn wedi creu 8,349 o gyfleoedd swyddi, a bod 6,352 o'r rhain wedi'u llenwi.¹⁰

Mewn erthygl yn y Western Mail ar 18 Gorffennaf 2013, cadarnhaodd Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg:

Reducing the number of young people who are not in education, employment or training (NEETs) remains a top priority for us.¹¹

⁶ Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, [NEET is not a noun](#), 8 Chwefror 2010 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Menter a Dysgu, [Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant](#), Hydref 2010, t14-15 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Ymateb y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr \(ATL Cymru\) i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant \(NEET\)](#), 2010 [fel ar 21 Awst 2013]

⁹ Targed sydd yn nogfen Llywodraeth Cymru, [Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith](#), 2006 [fel ar 21 Awst 2013]

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Twf Swyddi Cymru, Awst 2013](#), 22 Awst 2013 [fel ar 23 Awst 2013]

¹¹ Western Mail, [Tackling the problem of NEETS remains top priority in Wales](#), 18 Gorffennaf 2013 [fel ar 23 Gorffennaf 2013]

2. Ystadegau ar nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dwy set wahanol o ystadegau'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. **Cyhoeddir y Datganiad Ystadegol Cyntaf, *Participation of young people in education and the labour market*, bob blwyddyn ym mis Gorffennaf** a dyma'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Cyhoeddir ail Fwletin Ystadegol, *Young people not in education, employment or training* bob chwarter ac mae'n darparu data mwy amserol ond llai cadarn yn ystadegol ac mae'n cynnwys dadansoddiad yn ôl rhyw, oed a rhanbarth, sy'n rhywbeth nad yw'n bosibl gyda data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf. Mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sef arolwg o aelwydydd a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o oddeutu 23,000 o bobl o oedran gweithio ledled Cymru, ond sy'n cynnwys llai na 1,500 o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.

Felly mae'r Bwletin Ystadegol chwarterol hwn (sy'n defnyddio gwybodaeth o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) yn seiliedig ar sampl llai na'r Datganiad Ystadegol Cyntaf mwy swyddogol sydd hefyd yn cynnwys data arall gan yr ONS, gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a chofrestriadau addysg bellach, a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yn ogystal â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Fodd bynnag, er bod y wybodaeth chwarterol yn llai cadarn, dengys y canlyniadau wahaniaeth o ddim mwy na 2 bwynt canran rhwng data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. (Roedd hyn yn 1 pwynt canran ar y mwyaf cyn y cyhoeddiad mwyaf diweddar.) Felly mae'r Bwletin Ystadegol chwarterol yn rhoi darlun defnyddiol cymharol gyfoes.

Cynhyrchir y ddwy set o ystadegau ar gyfer y ddau gategori oedran 16-18 ac 19-24.

2.1. *Y Datganiad Ystadegol Cyntaf: Ystadegau blynyddol hyd ddiwedd 2012*

Cyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol diweddaraf, [*Participation of young people in education and the labour market*](#), ar 24 Gorffennaf 2013 ac roedd yn cynnwys y ffigurau diwygiedig terfynol ar gyfer 2011 ac amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2012. Fel y nodir uchod, mae'n ffynhonnell ddata swyddogol.

2.1.1. Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed

- Dengys yr ystadegau fod cyfran y **bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed** yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi **gostwng o 12.2 y cant yn 2011 i 10.2 y cant yn 2012**.
- Mae'r gostyngiad yn fwy sylweddol ymysg dynion (2.6 pwynt canran) o gymharu â menywod (1.5 pwynt canran).
- Er gwaethaf hyn, mae nifer y dynion 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn parhau i fod yn uwch na nifer y menywod, ac mae hyn wedi bod yn gyson ar draws yr ystod data er 2004.

2.1.2. Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed

- Mae cyfran y **bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed** nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi **gostwng ychydig o 22.2 y cant yn 2011 i 23.0 y cant yn 2012**.
- Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad ymysg menywod o 0.8 pwynt canran ond gwelwyd cynnydd o 2.2 pwynt canran ymysg dynion.
- Yn wahanol i'r ystod oedran 16-18, yn draddodiadol gwelwyd cyfraddau uwch o fenywod nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ond erbyn hyn mae'r bwlch wedi cau i 3 phwynt canran.

2.1.3. Y cydbwysedd rhwng addysg/hyfforddiant a chyflogaeth

Dengys tablau 1-3 nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru yn ogystal â'r dadansoddiad yn ôl rhyw, dros y blynyddoedd diwethaf. Dangosant hefyd i ba raddau y mae addysg a hyfforddiant yn ffactor o ran y rhai sy'n ymgysylltu ag un o'r tri chategori hyn. Dengys Ffigur 1 y wybodaeth yn Nhabl 1 (ar gyfer dynion a menywod gyda'i gilydd) ar ffurf graff llinell.

Yn sgil *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* ehangwyd y dewis o opsiynau addysg a hyfforddiant i bobl ifanc drwy sicrhau bod isafswm o 30 o gyrsiau ar lefel 3 ar gael i fyfyrwyr rhwng 16 a 18 oed. Ei nod hefyd oedd cynnig arlwy mwy hyblyg ac amrywiol i bobl ifanc ddewis ohono yn unol â'u hamgylchiadau a'u hanghenion.

Yn ddiddorol ddigon, noda'r ystadegau o ran pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, mewn marchnad lafur sy'n parhau i fod yn heriol i unigolion, **mai dim ond tua hanner y gostyngiad rhwng 2011 a 2012 sydd i'w briodoli i'r cynnydd yn y nifer sydd mewn addysg a hyfforddiant (a llawer llai na hynny ymysg dynion)**.

Fodd bynnag, yn y grŵp oedran 19-24, mae'r cyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant wedi aros yr un fath, gan awgrymu bod y cynnydd ymysg dynion i'w briodoli i anawsterau'n ymwneud â dod o hyd i swydd.

Mae'r cynnydd nodedig ymysg pobl ifanc 19 i 24 oed rhwng 2008 a 2009, sy'n cyd-daro ag effaith y dirwasgiad yn ystod y cyfnod hwn, yn ategu'r sylw ynghylch y cysylltiad rhwng y cyfraddau ymysg dynion 19-24 oed a'r hinsawdd economaidd.

Tabl 1: Amcangyfrif o gyfranogiad mewn addysg/hyfforddiant neu'r nifer nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru (dynion a menywod)

<i>Dynion a Menywod</i>		<i>canran</i>			
Blwyddyn yn Diwedd Pobl	Pobl ifanc 16 i 18 oed		Pobl ifanc 19 i 24 oed		
	Mewn addysg new hyfforddiant	Heb fod mewn addysg neu hyfforddiant	Mewn addysg new hyfforddiant	Heb fod mewn addysg neu hyfforddiant	
2004 (r)	73.8	11.2	38.9	16.2	
2005 (r)	75.4	9.9	39.2	17.5	
2006 (r)	76.1	9.7	38.9	17.9	
2007 (r)	74.6	11.7	38.1	17.4	
2008 (r)	75.9	12.4	37.1	17.4	
2009 (r)	77.7	12.4	37.9	21.8	
2010 (r)	78.9	11.5	38.5	23.0	
2011 (r)	80.0	12.2	38.2	22.2	
2012 (p)	80.9	10.2	38.2	23.0	


Ffynhonnell: ONS, HESA, Llywodraeth Cymru, Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd yn Natganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013 Llywodraeth Cymru, [Participation of young people in education and the labour market \(year end 2011 and 2012 \(provisional\)\)](#), Tabl 2, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013

Nodiadau:

Mae (r) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon wedi'u diwygio. Mae'n arferol i ffigurau'r flwyddyn flaenorol gael eu diwygio; fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y blyneddoddd blaenorol hefyd wedi cael eu diwygio gan ONS yng ngoleuni data newydd o Gyfrifiad 2011.

Mae (p) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon yn ddata dros dro

Ffigur 1: Canrannau'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru (dynion a menywod)



Ffynhonnell: ONS, HESA, Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd yn Natganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013 Llywodraeth Cymru, [Participation of young people in education and the labour market \(year end 2011 and 2012 \(provisional\)\)](#), Tabl 2, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013

Nodiadau:

Mae (r) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon wedi'u diwygio. Mae'n arferol i ffigurau'r flwyddyn flaenorol gael eu diwygio; fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd wedi cael eu diwygio gan ONS yng ngoleuni data newydd o Gyfrifiad 2011.

Mae (p) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon yn ddata dros dro

Tabl 2: Amcangyfrif o gyfranogiad mewn addysg/hyfforddiant neu'r nifer nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru (dynion yn unig)

<i>Dynion</i>	<i>canran</i>			
	Pobl ifanc 16 i 18 oed		Pobl ifanc 19 i 24 oed	
Blwyddyn yn Diweddu	Mewn addysg new hyfforddiant	Heb fod mewn addysg neu hyfforddiant	Mewn addysg new hyfforddiant	Heb fod mewn addysg neu hyfforddiant
Pobl				
2004 (r)	70.7	13.1	36.4	11.9
2005 (r)	72.6	12.3	37.1	14.8
2006 (r)	73.1	11.0	37.1	15.5
2007 (r)	71.4	13.0	36.1	15.3
2008 (r)	74.0	15.1	35.1	15.2
2009 (r)	76.1	14.9	36.2	20.6
2010 (r)	76.8	13.7	37.0	22.0
2011 (r)	77.6	14.4	36.5	19.3
2012 (p)	78.8	11.8	36.4	21.5

Ffynhonnell: ONS, HESA, Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd yn Natganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013 Llywodraeth Cymru, [*Participation of young people in education and the labour market \(year end 2011 and 2012 \(provisional\)\)*](#), Tabl 2, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013

Nodiadau:

Mae (r) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon wedi'u diwygio. Mae'n arferol i ffigurau'r flwyddyn flaenorol gael eu diwygio; fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd wedi cael eu diwygio gan ONS yng ngoleuni data newydd o Gyfrifiad 2011.

Mae (p) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon yn ddata dros dro.

Tabl 3: Amcangyfrif o gyfranogiad mewn addysg/hyfforddiant neu'r nifer nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru (menywod yn unig)

<i>Menywod</i>	<i>canran</i>			
	Pobl ifanc 16 i 18 oed		Pobl ifanc 19 i 24 oed	
<u>Blwyddyn yn Diweddu</u>	<u>Mewn addysg new hyfforddiant</u>	<u>Heb fod mewn addysg neu hyfforddiant</u>	<u>Mewn addysg new hyfforddiant</u>	<u>Heb fod mewn addysg neu hyfforddiant</u>
Pobl				
2004 (r)	77.1	9.1	41.4	20.5
2005 (r)	78.4	7.4	41.2	20.2
2006 (r)	79.3	8.2	40.7	20.4
2007 (r)	77.8	10.3	40.1	19.6
2008 (r)	77.9	9.5	39.2	19.7
2009 (r)	79.2	9.8	39.6	23.0
2010 (r)	81.0	9.3	40.0	24.0
2011 (r)	82.4	9.9	39.9	25.3
2012 (p)	83.2	8.4	40.0	24.5

Ffynhonnell: ONS, HESA, Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd yn Natganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013 Llywodraeth Cymru, [Participation of young people in education and the labour market \(year end 2011 and 2012 \(provisional\)\)](#), Tabl 2, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013

Nodiadau:

Mae (r) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon wedi'u diwygio. Mae'n arferol i ffigurau'r flwyddyn flaenorol gael eu diwygio; fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol hefyd wedi cael eu diwygio gan ONS yng ngoleuni data newydd o Gyfrifiad 2011.

Mae (p) yn dynodi bod y data ar gyfer y flwyddyn hon yn ddata dros dro.

2.2. Bwletin Ystadegol: Ystadegau chwarterol yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cyhoeddwyd y Bwletin Ystadegol chwarterol diweddaraf, [Young people not in education, employment or training](#) ar 24 Gorffennaf 2013 (yr un diwrnod â'r Datganiad Ystadegol Cyntaf). Fel y nodir uchod, mae hyn yn rhoi darlun llai cadarn ond mwy amserol, yn arbennig ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn adrodd ar y cyfnod hyd ddiwedd 2012, ond mae'r Bwletin Ystadegol yn cynnwys ffigurau am y flwyddyn hyd ddiwedd Chwarter 1 2013 (31 Mawrth 2013).

2.2.1. Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed

- Mae hyn yn amcangyfrif, yn Chwarter 1 2013, nad oedd **10.9 y cant o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed** mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n ostyngiad o 0.9 pwynt canran o Chwarter 4 2012 ac yn **ostyngiad o 1.8 pwynt canran o gymharu â'r un cyfnod yn 2012.**

- Er mwyn rhoi rhyw fath o gyd-destun o ran y gwahaniaethau rhwng data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, mae'r ganran o 11.8 y cant ar ddiwedd 2012 yn cymharu â 10.2 y cant yn ôl y Datganiad Ystadegol Cyntaf.

2.2.2. Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed

- Mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif, yn Chwarter 1 2013, nad oedd **21.3 y cant o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed** mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn **ostyngiad o 1.6 pwynt canran o gymharu â Chwarter 4 2012 a Chwarter 1 2012**, lle roedd y gyfradd yn 22.9 y cant ar gyfer y ddau.
- Unwaith eto, at ddibenion cymharu mae data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn amcangyfrif nad oedd 23.0 y cant o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

2.2.3. Amrywiadau rhanbarthol

Yn ogystal mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn caniatáu dadansoddiad yn ôl gwahanol ranbarthau o Gymru. Fodd bynnag, mae hyn ar draws yr ystod oedran 16-24 cyfan yn hytrach na chael ei rannu'n ddau gyfnod. Dengys Tabl 4 isod y cyfraddau rhanbarthol ar gyfer y tri chyfnod blynyddol diwethaf. Oherwydd maint bach y samplau, caiff y data ei gyfartalu dros y tair blynedd flaenorol. **Mae'r gyfran uchaf o bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Ne-ddwyrain Cymru a'r gyfradd isaf yn y Canolbarth.**

Tabl 4: Nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn rhanbarthau Cymru (cyfartaleddau tair blynedd)

	<i>canran</i>		
	2009Q1 - 2012 Q1	2010Q1 - 2012 Q1	2011Q1 - 2013 Q1
Gogledd Cymru	15.3	16.8	16.8
Canolbarth Cymru	12.0	13.3	12.2
De-orllewin Cymru	19.8	19.5	18.6
De-ddwyrain Cymru	20.0	21.5	21.3
Cymru	18.5	19.6	19.2

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Young people not in education, employment or training \(NEET\) \(Year to 31 March 2013\)](#), 24 Gorffennaf 2013.

Tabl 3 [fel ar 24 Gorffennaf 2013]

Nodiadau:

Y rhanbarthau yw'r rhai a ddefnyddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

- Gogledd Cymru: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
- Canolbarth Cymru: Powys, Ceredigion
- De-orllewin Cymru Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
- Y De-ddwyrain: Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd

2.2.4. Y cyfraddau ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn ôl awdurdod lleol

Hefyd ceir rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig yn y Bwletin Ystadegol sy'n rhoi syniad o gyfrannau'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, dim ond pan fydd pobl ifanc yn **gadael addysg ym Mlwyddyn 11** y darperir hyn ac mae'n seiliedig ar Arolygon o Gyrchfannau Disgyblion. Caiff y rhain eu cynnal yn flynyddol gan Gyrfa Cymru ac maent yn holi pawb sy'n gadael ysgolion a gynhelir yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a rhai disgyblion sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol) i ganfod eu cyrchfannau ar ddiwedd mis Hydref ar ôl iddynt gwblhau Blwyddyn 11.

Felly gellir eu defnyddio i ryw raddau i amcangyfrif nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn union ar ôl gadael oedran ysgol gorfodol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Cyflwynir y wybodaeth ar gyfer mis Hydref 2012 (yn dilyn Blwyddyn 11 2011/12) yn Nhabl 5 isod, ynghyd â lefelau cyfatebol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Gellir gweld bod y darlun yn amrywio gryn dipyn ledled Cymru gyda'r **cyfraddau isaf o bobl ifanc a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i'w gweld ym Mhowys, Ceredigion, Sir y Fflint ac Ynys Môn a'r cyfraddau uchaf i'w gweld yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chaerffili.**

Ceir gwybodaeth hefyd ar wefan SatsCymru ynghylch cyrchfannau'r **rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13** a chyflwynir hyn yn Nhabl 6. Unwaith eto, mae'r sefyllfa ledled Cymru yn amrywio ond yn ddiddorol ddigon nid yr un awdurdodau lleol sydd â'r cyfraddau uchaf o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant pan fyddant yn gadael Blynyddoedd 11 ac 13. **Roedd y lefelau isaf ar gyfer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 yn Sir y Fflint, Conwy a Phowys a'r lefelau uchaf yn Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Thorfaen.**

Mae hefyd yn werth nodi bod y **gyfradd gyffredinol o bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi lleihau er 2008 adeg gadael Blwyddyn 11, ond mae wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod ar gyfer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 tan y gostyngiad diweddar rhwng 2011 a 2012.**

Tabl 5: Y nifer sy'n gadael ysgolion Cymru ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl awdurdod unedol

	2007	2008	2009	2010	2011	<i>canran</i> 2012
Ynys Môn	6.7	8.1	5.2	5.3	2.7	2.4
Gwynedd	4.4	5.7	4.2	3.6	3.6	3.0
Conwy	5.5	5.7	4.8	3.7	4.0	3.4
Sir Ddinbych	4.9	6.2	4.4	4.4	3.6	2.9
Sir y Fflint	4.6	7.2	3.7	2.8	2.7	2.3
Wrecsam	8.9	9.6	5.0	4.2	3.4	3.2
Powys	5.3	3.0	2.1	2.9	3.0	2.2
Ceredigion	2.6	3.8	2.3	2.3	3.3	2.3
Sir Benfro	4.7	6.4	4.8	4.8	3.8	3.1
Sir Gaerfyrddin	5.5	4.4	4.0	2.9	2.8	4.3
Abertawe	5.8	5.8	6.4	4.2	3.1	3.2
Castell-nedd Port Talbot	9.0	7.7	7.1	6.6	4.6	3.1
Pen-y-bont ar Ogwr	7.3	8.0	7.6	7.1	4.4	6.4
Bro Morgannwg	6.8	6.2	5.6	4.6	4.3	3.9
Caerdydd	8.5	10.6	8.9	8.8	7.7	6.7
Rhondda Cynon Taf	7.5	6.1	4.9	5.7	3.9	4.5
Merthyr Tudful	7.9	7.8	4.6	7.6	5.6	6.2
Caerffili	7.1	7.1	5.0	6.0	4.5	5.9
Blaenau Gwent	10.4	9.7	6.6	8.7	6.6	4.2
Torfaen	10.5	10.1	8.2	7.0	6.7	5.5
Sir Fynwy	5.6	5.3	5.0	3.9	3.8	3.8
Casnewydd	9.3	10.4	9.1	7.5	6.7	4.9
Cymru	6.9	7.1	5.7	5.4	4.4	4.2

Ffynhonnell: Cyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru, Gyrfa Cymru: cyflwynwyd ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Young people not in education, employment or training \(NEET\) \(Year to 31 March 2013\)](#), 24 Gorffennaf 2013, Tabl 3 [fel ar 25 Gorffennaf 2013]

Tabl 6: Y nifer sy'n gadael ysgolion Cymru ym Mlwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ôl awdurdod unedol

	2007	2008	2009	2010	2011	<i>canran</i> 2012
Ynys Môn	1.4	1.8	1.0	3.9	3.8	5.3
Gwynedd	2.1	2.9	4.9	3.2	3.9	3.2
Conwy	2.5	2.0	2.0	6.0	1.8	2.4
Sir Ddinbych	2.7	2.4	5.4	6.2	5.6	4.1
Sir y Fflint	4.0	5.6	6.1	7.0	4.2	1.8
Wrecsam	3.3	3.8	8.9	4.7	7.1	6.4
Powys	1.7	3.6	1.7	3.0	3.5	3.0
Ceredigion	4.7	5.9	4.7	4.4	7.6	4.3
Sir Benfro	2.7	3.2	4.0	5.0	5.2	3.5
Sir Gaerfyrddin	3.4	3.7	6.6	5.9	4.9	3.6
Abertawe	3.8	4.5	5.8	7.2	7.9	4.5
Castell-nedd Port Talbot	7.6	6.2	5.9	4.7	8.8	3.9
Pen-y-bont ar Ogwr	4.1	5.7	5.6	7.7	5.7	6.2
Bro Morgannwg	3.1	5.3	6.5	4.3	7.7	4.4
Caerdydd	3.6	4.5	5.5	6.2	8.4	4.9
Rhondda Cynon Taf	11.3	13.9	16.5	11.6	9.9	9.0
Merthyr Tudful	10.4	8.3	7.6	7.3	5.2	4.3
Caerffili	3.5	4.5	7.1	6.6	5.1	6.8
Blaenau Gwent	10.2	9.9	6.6	8.2	7.6	7.2
Torfaen	7.4	6.2	5.5	8.7	5.5	7.0
Sir Fynwy	3.4	3.9	9.6	6.6	7.7	5.4
Casnewydd	3.2	4.5	5.5	6.9	6.9	6.5
Cymru	4.6	5.6	6.6	6.6	6.4	5.1

Ffynhonnell: Cyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru, Gyrfa Cymru: cyflwynwyd yn StasCymru, [*Destinations of Year 11 pupils in schools in Wales by local authority and year \(EDUC0055\)*](#), Ebrill 2013 [fel ar 21 Awst 2013]

3. Y cyd-destun polisi yng Nghymru

3.1. Targedau

Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer mynd i'r afael â nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn hen gyfarwydd, ac mae'r ymyriadau polisi yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer.

Roedd strategaeth 2006 Llywodraeth Cymru [Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith](#) yn cynnwys targed i gynyddu nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i 93 y cant erbyn 2010, gyda charreg filltir o 90 y cant erbyn 2007. O dan y naill fesur ystadegol neu'r llall a ddisgrifir yn adran 2, ni chyrrhaeddwyd y targed 93 y cant (yn seiliedig ar 7 cant o bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Cyrhaeddodd cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant y lefel isaf yn 2006, sef y flwyddyn y pennwyd y targed. Yn ôl y Datganiad Ystadegol Cyntaf roedd yn 9.7 y cant (diwedd y flwyddyn 2006) ac yn 10.3 y cant yn ôl ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Chwarter 4 2006). Roedd cyrraedd y targed neu beidio wastad yn debygol o gael ei ddylanwadu gan ffactorau economaidd ehangach ledled y DU a chwaraeodd y dirwasgiad yn 2008 a 2009 ran sylweddol yn hyn o beth. Ceir trafodaeth bellach yn rhan 5 o'r papur hwn ar roi nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru yng nghyd-destun twf economaidd y DU.

Mae [Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi](#) Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, yn pennu targed i **leihau cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i 9 y cant erbyn 2017**. Gan gydnabod efallai nad yw'r holl ffyrdd a'r dulliau o ddylanwadu ar gyfraddau ymysg pobl ifanc **19 i 24 oed** ar gael iddi, pennodd Llywodraeth Cymru darged y dylai'r cyfraddau yn y grŵp oedran hwn **leihau o gymharu â lefelau'r DU gyfan erbyn 2017**.¹² Hefyd i'w gyflawni erbyn 2015 mae'r targed yn *Y Wlad sy'n Dysgu*, i sicrhau bod 95 y cant o bobl ifanc yn barod am waith hyfedr neu addysg uwch erbyn iddynt gyrraedd 25 oed.

¹² Llywodraeth Cymru, [Creu cymunedau cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi](#), Gorffennaf 2013, t19 [fel ar 26 Gorffennaf 2013]

3.2. *Datblygiadau yn y Trydydd Cynulliad (2007 - 2011)*

Roedd nifer o ymrwymadau Cymru'n Un¹³ gan glymblaid Llywodraeth y Cynulliad 2007-2011 yn ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys cynyddu cyfraddau cyflogaeth, cynyddu nifer y prentisiaethau, ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch ac addysg bellach, a chreu cysylltiadau rhwng addysg ac entrepreneuriaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n Un strategaeth yn dwyn y teitl [*Reducing the proportion of young people not in education, employment or training in Wales*](#), yn 2009 a oedd yn canolbwyntio ar y grŵp oedran 16-18 yn unig. Dywedodd fod hyn oherwydd bod pobl o'r oedran hwn yn agored iawn i niwed gan eu bod rhwng oedran addysg gorfodol a bod yn gymwys i gael y prif fudd-daliadau lles. Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu o ran rhoi'r opsiynau cywir i bobl ifanc eu defnyddio fel llwyfan ar gyfer gweddill eu bywydau.

We know that most young people who are NEET say that it is because the right learning provision or employment opportunities are not available, or that they do not have the qualifications to progress. The central part of our response to the NEET issue, therefore, has to focus on trying to engage young people more effectively in learning by offering them a wider choice of options as to what and how they study as they move through their education, and on making sure that their choices give them the skills they need to progress into sustained employment.¹⁴

Daeth ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r pwnc yn 2010 i'r casgliad:

'nad oes prinder dyhead na strategaethau yng nghyswllt pobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ond bod angen gweithredu mwy effeithiol ar lawr gwlad' ac 'mae'n peri pryder mawr bod y system yn dal i fethu â helpu cymaint o'n pobl ifanc'.¹⁵

Roedd y Pwyllgor hefyd yn 'argyhoeddedig bod angen arweinyddiaeth gliriach ac ymroddedig', yn lleol ac yn genedlaethol ac argymhellodd y dylai un Gweinidog arwain y gwaith o gydgyssylltu'r strategaeth a'r cynlluniau gweithredu, monitro'r gwaith gweithredu a bod yn atebol yn genedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb cyffredinol yn gorwedd gyda Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ac mae Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau o ddydd i ddydd at ddibenion ymarferol.¹⁶

¹³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru, Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol*](#), Mehefin 2007 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [*Reducing the proportion of young people not in education, employment or training in Wales*](#), 2009, t6 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

¹⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Menter a Dysgu, [*Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*](#), Hydref 2010, t14-15 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

¹⁶ Llywodraeth Cymru, [*Cyfrifoldebau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis; Cyfrifoldebau'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates*](#) [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid rhoi mwy o ffocws ar y grŵp oedran ehangach o bobl ifanc 16-25 oed, gan fod y strategaethau hyd yma wedi canolbwyntio ar y grŵp oedran 16 i 18. Roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol oherwydd dengys yr ystadegau **fod y gyfradd ymysg pobl ifanc 19 i 24 oed yn sylweddol uwch a, gellid dadlau, o bryder mawr**. Ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed, mae'r gyfran wedi bod oddeutu 12 y cant er 2009, gan ostwng i ychydig dros 10 y cant yn 2012, ond ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed mae wedi bod rhwng 22 a 23 y cant er 2009, gan gynyddu o rhwng 17 ac 18 y cant yn ystod y blynyddoedd blaenorol.¹⁷

Adeg adolygiad y Pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru, sefydlwyd uned newydd yn yr Adran Addysg a Sgiliau yn 2011 i lywio polisi ac arwain gweithgaredd sy'n helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghymru. Fe'i disgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru fel sicrhau cydlyniant o ran dull gweithredu cyffredinol yr adran ar ymgysylltu a chyflogaeth ieuenctid. Daeth yr uned hon yn rhan o Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn ddiweddarach, a sefydlwyd yn 2012.

3.3. Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid 2011-2015

Gwnaeth Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu gydol oes ar y pryd, [Ddatganiad Cabinet](#) ar 12 Ionawr 2011 yn rhoi manylion [Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid 2011-2015](#) newydd Llywodraeth Cymru. Roedd y datganiad hwn yn cynnwys cydnabyddiaeth bod y dirwedd economaidd wedi newid yn 'sylweddol' ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei strategaeth a'i chynllun gweithredu yn 2009. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod golwg lawer ehangach wedi'i gymryd o'r mater hwn yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ystod oedran 16-18, o ran **ymyriadau cynnar o enedigaeth a thu hwnt i 18 oed hyd 24/25 oed**. Roedd hyn yn adlewyrchu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, a nododd:

The new Action Plan has a much broader view than 16–18 year olds, concentrating on preventing young people from disengaging, looking at key transition points in a young person's life and engaging young adults, up to 25 years of age.¹⁸

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013, [Participation of young people in education and the labour market \(year end 2011 and 2012 \(provisional\)\)](#), Tabl 2, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013]

¹⁸ Llywodraeth Cymru [Welsh Assembly Government response to the Enterprise and Learning Committee's recommendations in the report: Young people not in education, employment or training](#), Ionawr 2011, t8 [fel ar 22 Gorffennaf 2013]

Amlygodd y datganiad hefyd y **mesurau ataliol yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith i arwain at fwy o ymgysylltiad ieuenctid** yn y tymor hwy fel y rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd, Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a rhaglenni presennol gan gynnwys Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Cyfeiriodd hefyd at bolisiau fel Llwybrau at Brentisiaethau a rhaglenni Recriwtiaid Ifanc yn ogystal â chadw'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg i bobl ifanc o gartrefi incwm isel.

Dywedodd datganiad y Gweinidog mai nod cyffredinol y Cynllun Gweithredu oedd lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o fod yn y sefyllfa honno, ond ni phennwyd targed meintiol yn y datganiad hwnnw. Fel y trafodir uchod, mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi mis Gorffennaf 2013 yn pennu targedau ar gyfer y categorïau oedran 16-18 ac 19-24.

Roedd y Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ei hun yn cynnwys 18 o gamau gweithredu gydag amrywiol derfynnau amser yn gysylltiedig â hwy. Roedd saith o'r rhain o natur barhaus ac roedd gan eraill derfynnau amser penodol.

Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu

Ar 17 Ionawr 2013, rhyddhaodd Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, [ddatganiad](#) a **diweddariad ar gynnydd yn erbyn y deunaw cam yn y Cynllun Gweithredu**. Dywedodd fod rhai o'r camau bellach wedi'u cwblhau, bod cynydd sylweddol wedi'i wneud ar gamau eraill, ac mewn nifer o achosion bod angen rhagor o gynnydd gan y bwriadwyd cwblhau'r camau erbyn 2015.

Roedd y cynnydd a amlinellwyd gan y Dirprwy Weinidog yn cynnwys y canlynol [nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr]:

- Llwybr mwy cydlynol sy'n cynnig taith hyblyg ond integredig i bobl ifanc tuag at gyflogaeth gynaliadwy drwy gysoni cymorth gan Lywodraeth Cymru yn well o dan y cysyniad **Llwybr at Waith**;
- Ehangu'r cyfleoedd prentisiaeth drwy ddefnyddio'r £20 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yng nghyllideb 2013/14, drwy raglenni fel **Llwybrau at Brentisiaethau, Recriwtiaid Ifanc, a'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau**;
- Digwyddiadau y 'Sgwrs go iawn' sy'n cynnwys arweinwyr busnes a phobl ifanc wedi'u hanelu at ymchwilio i atebion i alluogi pobl ifanc i gael mynediad at waith a chyflogwyr i recriwtio'n llwyddiannus;
- Treialu dull gweithredu newydd sy'n cynnwys chwe elfen allweddol gydag wyth awdurdod lleol a phartneriaid eraill;

- Dull integredig o gynorthwyo teuluoedd y gall eu plant fod mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant drwy'r rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf**;
- Cynnwys strategaethau a dulliau o ymdrin yn effeithiol â disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar wefan newydd sy'n darparu adnoddau i athrawon;
- Cryfhau'r trefniadau pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd, a rhwng addysg uwchradd a chyflogaeth;
- Ymyriadau polisi i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy strategaethau penodedig a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol a phroffion darllen a rhifedd blynyddol;
- Treialu cynllun i ehangu'r model Anogwyr Dysgu 14-19 i'r cyfnod cynharach, sef 11-14 oed, mewn pum ysgol;
- Hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc drwy'r **Rhaglen Hyfforddeion** newydd a'r **Fwrsariaeth Entrepreneuriaid Ifanc** sydd ar gael dan y rhaglen Twf Swyddi Cymru;
- Rhaglen Ar y Blaen gwerth £3.4 miliwn wedi'i rheoli gan y Loteri Fawr, sy'n cynnig lleoliadau gwaith â thâl i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed am 25 awr yr wythnos am gyfnod o chwe mis ar yr isafswm cyflog. (Mae'r rhaglen y targedu pobl ifanc sydd wedi troseddu a'r rhai sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant);
- Llwybrau wedi'u harwain gan awdurdodau lleol i ddatblygu system fwy cadarn ar gyfer tracio ac adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl gan sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu'n well.

(Mae rhagor o wybodaeth am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu yn adran 4.)

3.4. Pontio o'r Cynllun Gweithredu i'r Fframwaith

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog hefyd yn ei ddatganiad ar 17 Ionawr 2013 ei fod wedi penderfynu ei bod yn bryd newid o'r Cynllun Gweithredu 18 pwynt i **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid**, a ddatblygir ar sail arferion da a nodwyd gan nifer o awdurdodau lleol. Yn ei ddatganiad, dywedodd Jeff Cuthbert fod hyn yn dilyn ei [sesiwn graffu](#) gerbron y Pwyllgor Menter a Busnes ar 2 Mai 212 pan roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor.

Ar ôl hynny, cyhoeddodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, [ddatganiad](#) arall ar 28 Ebrill 2013, yn cadarnhau y byddai'r chwe elfen ar gyfer y fframwaith fel a ganlyn:

- Nodi'r bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio;
- Broceriaeth a chydlynu'r cymorth ar eu cyfer yn well;
- Tracio a symud pobl ifanc yn fwy effeithiol drwy gamau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc;
- Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd am waith;
- Rhagor o atebolrwydd i Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill.

Dywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad y byddai cynllun gweithredu ar gyfer y Fframwaith yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2013, a chadarnhawyd hyn hefyd mewn [Adroddiad ar Benderfyniad Cabinet](#) Llywodraeth Cymru dyddiedig 26 Gorffennaf 2013.

4. Y Rhaglen Lywodraethu a Twf Swyddi Cymru

4.1. Y Rhaglen Lywodraethu

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiad i gymryd camau i fynd i'r afael â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ei Rhaglen Lywodraethu, gan ddweud yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2012:

Mae lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET, yn dal yn her fawr ac yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'r niwed y mae bod yn NEET yn ei wneud i ddyfodol pobl ifanc yn ogystal â'u plant yn rhywbeth sy'n cael ei gydnabod, a chost hynny i'r pwrs cyhoeddus hefyd.¹⁹

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y gwahanol heriau sy'n gysylltiedig â'r ddau gategori oedran gwahanol a ystyrir yn 'bobl ifanc'. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith bod **effaith yr hinsawdd economaidd bresennol yn cael ei theimlo'n fwy gan bobl ifanc 19 i 24 oed a bod y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc 16 i 18 oed yn tueddu i fod yn faterion mwy hirdymor ac efallai'n faterion mwy anhadrin.**

Mae'r data yn awgrymu, yn achos pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), bod y dirwasgiad yn llai tebygol o fod yn ffactor allweddol nag yn achos pobl ifanc 19-24 oed. Dros gyfnod hir o amser, mae'r ffigurau wedi bod yn gyson oddeutu 10 y cant i 12 y cant gan adlewyrchu materion strwythurol sydd yr un fath ym mhob sefyllfa economaidd.²⁰

Mae'r ystadegau'n ategu'r casgliad hwn gyda'r newid sylweddol a ddigwyddodd yn ystod dechrau'r dirwasgiad rhwng 2008 a 2009 yn y cyfansymiau ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn ogystal â'r dadansoddiad ar gyfer dynion a menywod. Dangosodd yr ystadegau fod pobl ifanc 19 i 24 oed yn cael eu heffeithio'n fwy na phobl ifanc 16 i 18 oed a bod hyn yn berthnasol i ddynion a menywod.

Yn anochel, mae polisiâu i fynd i'r afael â'r mater drwy wella safonau addysgol a chyflawniad pobl ifanc yn canolbwyntio ar y bennod 'Addysg' yn y Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r ymrwymadau i fynd i'r afael â phroblemau penodol yn ymwneud â diweithdra ymysg ieuencid a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y bennod gyntaf, 'Twf a Swyddi Cynaliadwy'.

Mae Tabl 7 yn cynnwys yr ymrwymadau perthnasol o bennod Twf a Swyddi Cynaliadwy y Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â'r cynnydd hyd yma a nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a chawsant eu dethol yn seiliedig ar ba mor uniongyrchol berthnasol ydynt.

¹⁹ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu: Adroddiad Blynyddol 2012](#), Mai 2012 t15 [fel ar 21 Awst 2013]

²⁰ *Ibid*, t15 [fel ar 21 Awst 2013]

Tabl 7: Detholiad o Ymrwymadau o'r Rhaglen Lywodraethu²¹

Ymrwymiad	Hynt y gwaith hyd yma (adroddwyd gan Lywodraeth Cymru, Mehefin 2013)
<p>1/002 Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid trwy greu cronfa swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc ac yn ymestyn cyfleoedd am brentisiaethau ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Sefydlu Cronfa Swyddi Cymru yn cynnig cyflogaeth neu hyfforddiant ar gyfer ein pobl ifanc.</p>	<p>Mae'r rhaglen Twf Swyddi Cymru yn darparu cyfle gwaith i bobl ifanc ddi-waith 16-24 oed am gyfnod o chwe mis am yr isafswm cyflog cenedlaethol. Nod y rhaglen yw creu 12,000 cyfle dros 3 blynedd. Yn dilyn rhaglen beilot, lanswyd y rhaglen Twf Swyddi Cymru lawn ar 3 Ebrill 2012. Erbyn diwedd ei blwyddyn gyntaf, roedd 6,000 o gyfleoedd gwaith wedi'u creu gyda 4,042 o bobl ifanc yn gweithio mewn swyddi a oedd wedi'u creu trwy'r rhaglen. Mae'r rhaglen yn parhau i weld galw mawr gan gyflogwyr a lefel uchel o ddiddordeb gan bobl ifanc, ac edrychwn ymlaen at barhau â llwyddiant y rhaglen yn yr ail flwyddyn.</p>
<p>1/033 Cyflwyno olynnydd i'r rhaglen Adeiladu Sgiliau a fydd yn cynnig mwy o gymorth, yn cynnwys hyfforddiant 'cyfranogiad' lefel mynediad ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau gwaethaf i gyflogaeth.</p>	<p>Cyflwynwyd Hyfforddiaethau ym mis Awst 2011.</p> <p>Mae'r rhaglen Hyfforddiaethau yn cynorthwyo pobl ifanc i ennill hyder a chymhelliant; a gwella lefelau sgiliau drwy ddarparu NVQ mewn maes galwedigaethol o'u dewis. Mae pobl ifanc hefyd yn cael profiad gwaith gwerthfawr, sy'n eu cynorthwyo yn y cyfnod pontio i gyflogaeth. Mae'r Rhaglen Hyfforddiaethau yn cynnig tri llwybr neu faes diffiniedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Opsiwn hyfforddiant 'ymgysylltu' lefel mynediad ar gyfer dysgwyr sy'n barod i gymryd rhan ar unwaith mewn cyflogaeth neu ddysgu arall ar lefelau 1, 2 neu 3; • Opsiwn hyfforddiant Lefel 1 ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â ffocws galwedigaethol ac sy'n gallu dilyn rhaglen ddysgu ar Lefel Cymhwyster Cenedlaethol (NVQ) 1 neu gyfwerth; • Opsiwn hyfforddiant Lefel 2 (sef Pont at Waith) sydd â'r nod o gysylltu pobl ifanc sy'n barod am gyflogaeth ac sydd wedi cwblhau eu dysgu Lefel 1 ond nad ydynt wedi dod o hyd i waith neu ddysgu pellach ar lefel uwch. <p>Mesurir llwyddiant Hyfforddiaeth yn ôl faint o bobl ifanc sy'n mynd ymlaen i weithio neu i ddysgu ar lefel uwch.</p>

²¹ Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu: Adroddiad Blynyddol Mehefin 2013 [Atodiad Llawn](#), [fel ar 23 Gorffennaf 2013]

Tabl 7: Detholiad o Ymrwymiau o'r Rhaglen Lywodraethu²²

Ymrwymiad	Hynt y gwaith hyd yma (adroddwyd gan Lywodraeth Cymru, Mehefin 2013)
<p>1/038 Parhau gyda'n hymrwymiad i gynyddu cyfleoedd am brentisiaethau trwy'r rhaglen Llwybrau i Brentisiaethau, gyda ffocws arbennig ar ymgysylltu â chyflogaeth ieuenctid, a mynd i'r afael â diweithdra hirdymor.</p>	<p>Mae'r cynllun Llwybrau at Brentisiaeth yn cynorthwyo dysgwyr ifanc 16-24 oed, drwy hyfforddiant dwys i'w rhoi ar ben ffordd i fod yn brentisiaid.</p> <p>Comisiynwyd 2,014 o leoedd dysgwyr fel rhan o'r ymarfer cynllunio Llwybrau at Brentisiaeth. Mae 1,774 o ddysgwyr yn dal i gymryd rhan (cohort 2012/13) a byddant wedi cwblhau'r rhaglen ddiwedd Gorffennaf 2013.</p>
<p>1/039 Parhau i ymestyn y rhaglen Recriwtiaid Ifanc mewn ymateb i alw parhaus gan gyflogwyr a phobl ifanc, a'r gobaith yw y bydd 1000 o bobl ifanc yn elwa dros y flwyddyn nesaf.</p>	<p>Mae'r Rhaglen Recriwtiaid Newydd yn cefnogi hyfforddiant i brentisiaid yn ystod y dirywiad economaidd. Mae hefyd yn helpu cyflogwyr drwy gynnig rhaglenni prentisiaethau o ansawdd uchel i recriwtio a hyfforddi prentisiaid ifanc ychwanegol.</p> <p>Mae'r galw am y rhaglen wedi cynyddu. Ar 31 Mawrth 2013, roedd 2,160 o ddysgwyr wedi ymgysylltu â'r rhaglen.</p> <p>O fis Ebrill 2013, byddwn yn cynnig cymorth uniongyrchol hefyd i gyflogwyr, yn enwedig microfusnesau, trwy ein rhaglen Recriwtiaid Ifanc (YRP), gan gynnig cymorthdaliadau cyflogau i gyflogwyr cymwys sy'n creu lleoliadau newydd neu ychwanegol i brentisiaid 16-24 oed (£100 yr wythnos am 26 wythnos a £50 yr wythnos am y 26 wythnos sy'n weddill). Mae gennym 2,000 o leoedd newydd o fis Ebrill 2013.</p>
<p>1/040 Rhoi Gwasanaeth Paru Prentisiaeth ar waith fesul cam ar draws Cymru yn ddiweddarach eleni. Bydd y gwasanaeth hwn ar y we yn galluogi prentisiaid posibl i gofrestru ar gyfer prentisiaethau gwag a gwneud cais am brentisiaethau. Bydd cyflogwyr yn gallu cofrestru eu cwmnïau, cysylltu â darparwyr hyfforddiant lleol a hysbysebu prentisiaethau gwag.</p>	<p>Cyflwynwyd y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau yn llwyddiannus ledled Cymru ar 15 Mehefin 2011.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn cael ei gynnal ar wefan Gyrfa Cymru. Mae cynghorwyr gyrfaedd yn gallu mynd yn syth i'r wefan i weld swyddi 'byw' wrth gynnig cyngor i gleientiaid o bob oed.</p> <p>Hysbysebwyd cyfanswm o 1,403 o swyddi rhwng 01 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013.</p>

²² Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu: Adroddiad Blynyddol Mehefin 2013 [Atodiad Llawn](#), [fel ar 23 Gorffennaf 2013]

Tabl 7: Detholiad o Ymrwymïadau o'r Rhaglen Lywodraethu²³

Ymrwymïad	Hynt y gwaith hyd yma (adroddwyd gan Lywodraeth Cymru, Mehefin 2013)
<p>1/046 Gwerthuso'r gweithgarwch sgiliau sylfaenol ôl-16 cyfredol a diffinio polisi i ddylanwadu ar yr hyn a ddarperir yn y dyfodol.</p>	<p>Comisiynwyd ymchwil i werthuso Sgiliau Hanfodol ôl-16 yn 2012. Mae'r ymchwil yn cyfrannu at bolisi ehangach sy'n llywio'r ffordd yr ydym yn ymdrin â sgiliau hanfodol drwy addysg a'i chysylltiadau posibl â thangyflawni a diweithdra yn ddiweddarach mewn bywyd. Cyhoeddir adroddiad ar ymchwil i ddarparu a sicrhau ansawdd sgiliau hanfodol yn y gweithle ym mis Mai 2013. Bwriedir cyhoeddi Datganiad Polisi Sgiliau Hanfodol yn 2014.</p>
<p>1/047Yn dilyn adolygiad o weithgareddau i helpu pobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, canolbwyntio adnoddau ar yr ymyriadau mwyaf effeithiol.</p>	<p>Mae'r adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed wedi'i ymgorffori yn y 'Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu'. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau Ddatganiad Ysgrifenedig ym mis Ionawr 2013 ar y newid o'r Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid i Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Gwnaed datganiad llafar ar 23 Ebrill, yn lansio'r Fframwaith 6 phwynt newydd. Mae'r Fframwaith yn cael ei ddatblygu ar sail anghenion pobl ifanc, gan gryfhau atebolrwydd gwahanol asiantaethau yn y system am ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer pobl ifanc. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2013.</p>

4.2. Twf Swyddi Cymru

Disgrifia Llywodraeth Cymru y rhaglen Twf Swyddi Cymru fel rhan bwysig o'i ymateb i'r lefel 'bryderus' o ddiweithdra ymysg ieuenctid yn y DU ac yng Nghymru, sy'n 'difetha bywydau pobl ifanc yng Nghymru'. **Nod Llywodraeth Cymru yw creu deuddeg mil o gyfleoedd swyddi i bobl ifanc dros gyfnod o dair blynedd a dywed fod y 'rhaglen yn gweithio'**.²⁴

Mae Twf Swyddi Cymru yn darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n barod am swydd ond sy'n cael anhawster dod o hyd i waith. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd gwaith i bobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 24 oed am gyfnod o chwe mis ar yr isafswm cyflog cenedlaethol am 25 awr yr wythnos. Caiff pobl ifanc eu cyflogi drwy gydol cyfnod y rhaglen a rhaid i'r swyddi sy'n cael eu creu fod yn rhai ychwanegol i'r swyddi a fyddai'n cael eu llenwi fel arall, yn hytrach na chymryd lle y swyddi hynny.

Caiff costau cyflogi pobl ifanc am y chwe mis cyntaf eu had-dalu i fusnesau. Ariennir y rhaglen yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

²³ Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu: Adroddiad Blynyddol Mehefin 2013 [Atodiad Llawn](#), [fel ar 23 Gorffennaf 2013]

²⁴ Llywodraeth Cymru, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoegl (Jeff Cuthbert), [Twf Swyddi Cymru: Flwyddyn yn Ddiweddarach](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 14 Mai 2013 [fel ar 21 Awst 2013]

Mewn datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 14 Mai 2013, dywedodd Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar y pryd, fod y rhaglen **Twf Swyddi Cymru wedi rhagori ar ei tharged** yn ystod ei blwyddyn gyntaf (Ebrill 2012 - Ebrill 2013) drwy greu chwe mil o gyfleoedd gwaith gyda 4,052 o'r swyddi hynny wedi'u llenwi gan bobl ifanc.

Dangosodd data misol y mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau eu cyhoeddi fod **8,349 o swyddi wedi cael eu creu a bod 6,352 o bobl ifanc yn llenwi'r swyddi hyn** ar 10 Awst 2013.²⁵

Uchelgais y rhaglen yw y bydd pob swydd yn cael ei chynnal gan y cyflogwr sydd wedi'i chreu ar ôl i'r chwe mis ddod i ben. Yr hyn sy'n hollbwysig, felly, yw'r **hyn sy'n digwydd i'r bobl ifanc ar ôl i'r cyfnod a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddod i ben**, yn ogystal â ph'un a yw unigolion wedi cwblhau'r chwe mis cyfan. Bu hyn yn destun cryn drafod yn y Cynulliad.

Dengys yr [ystadegau](#) ar 10 Awst 2013 o dan faes mwyaf y rhaglen, sef y maes sector preifat, o blith y 4,960 o swyddi a lenwyd fod **1,776 o bobl ifanc wedi cwblhau'r cyfnod chwe mis a bod 771 wedi gadael y cynllun yn gynnar**. Dengys Tabl 8 isod gyrchfannau'r rhai a gwblhaodd y cynllun a dangosir y gyrchfannau/rhesymau ar gyfer y rhai a adawodd y cynllun yn gynnar yn Nhabl 9.

Dengys y ffigurau, o blith y 1,776 o bobl ifanc a oedd wedi cwblhau'r chwe mis, fod 1,362 (77 y cant) wedi mynd ymlaen i gael cyflogaeth, prentisiaeth neu i fyd addysg. O blith y 6,352 o bobl ifanc a lenwodd y swyddi, roedd 539 (8 y cant) wedi gadael y cynllun yn gynnar a heb gael cyflogaeth, prentisiaeth neu heb fynd i fyd addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth hon yn fisol. Yn ogystal, bwriedir cyhoeddi gwybodaeth fanylach yn y dyfodol, fel data yn ôl ardal, rhyw a maes.

²⁵ Llywodraeth Cymru, [Twf Swyddi Cymru, Awst 2013](#), Tabl 1, 22 Awst 2013 [fel ar 23 Awst 2013]

Tabl 8: Cyrchfannau'r rhai sydd wedi cwblhau cyfleoedd gwaith chwe mis Twf Swyddi Cymru (10 Awst 2013)

Cyrchfan	Nifer
Addysg bellach, hyfforddiant neu raglen hyfforddi arall gan y llywodraeth	36
Cyflogedig (gan yr un cyflogwr)	733
Cyflogedig (gan gyflogwr gwahanol) neu hunangyflogedig	168
Prentisiaethau/Rhaglen Recriwtiaid Ifanc (yr un cyflogwr)	417
Prentisiaethau/Rhaglen Recriwtiaid Ifanc (cyflogwr gwahanol)	8
Di-waith (yn cynnwys y rhai sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos)	267
Arall	147
Cyfanswm	1,776

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Twf Swyddi Cymru, Awst 2013](#), Tabl 1, 22 Awst 2013 [fel ar 23 Awst 2013]

Tabl 9: Cyrchfannau'r rhai a adawodd y cynllun Twf Swyddi Cymru yn gynnar (Awst 2013)

Cyrchfan / Rheswm	Nifer a adawodd yn gynnar cyn chwe mis
Addysg bellach, hyfforddiant neu raglen hyfforddi arall gan y llywodraeth	21
Cyflogedig (gan yr un cyflogwr)	36
Cyflogedig (gan gyflogwr gwahanol) neu hunangyflogedig	170
Prentisiaethau/Rhaglen Recriwtiaid Ifanc (yr un cyflogwr)	*
Prentisiaethau/Rhaglen Recriwtiaid Ifanc (cyflogwr gwahanol)	*
Rhesymau personol dros adael	190
Rhesymau iechyd dros adael	29
Arall	320
Cyfanswm	771

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Twf Swyddi Cymru, Awst 2013](#), Tabl 2, 22 Awst 2013 [fel ar 23 Awst 2013]

Nodiadau:

a) YRP - Y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc

b) * = Mae celloedd a allai fod yn ddatgelol (yn cynnwys ffigurau sy'n llai na 5) wedi'u dileu

5. Cyd-destun y DU

5.1. Cymariaethau rhwng gwledydd y DU

Mae'r Bwletin Ystadegol, [Young people not in education, employment or training \(NEET\) \(Year to 31 March 2013\)](#), yn rhoi amcangyfrifon o gyfraddau ar gyfer pob gwlad yn y DU. Mae'r rhain yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Eglura'r Bwletin Ystadegol fod yr amcangyfrifon hyn yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir gan yr Adran Addysg yn Lloegr a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n seiliedig ar yr Arolwg Chwarterol o'r Gweithlu, na ellir ei ddefnyddio i wneud cymariaethau rhwng y DU a Chymru. Felly dywed y Bwletin Ystadegol y dylid **trin yr amcangyfrifon sydd ynddo ar gyfer gwahanol wledydd y DU gyda gofal.**²⁶ Cyhoeddwyd [erthygl](#) yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng ystadegau o'r fath ledled y DU gan yr ONS ym mis Mai 2013, ochr yn ochr â'i chyhoeddiad cyntaf o amcangyfrifon y DU o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Tabl 10: Amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn ôl gwlad y DU

	<i>canran</i>			
	Pobl ifanc 16 i 18 oed		Pobl ifanc 19 i 24 oed	
	2011	2012	2011	2012
Cymru	13.2	11.8	22.1	22.9
Lloegr	10.8	9.7	19.5	19.1
Yr Alban	12.9	12.4	17.5	16.4
Gogledd Iwerddon	11.2 (!)	6.3 (!)	19.9	20.8
Y DU	11.1	9.9	19.5	19.1

Nodiadau:

(!!) Mae'r data'n seiliedig ar rhwng 10 a 25 o ymatebion yn fras a chaiff ei gategoreiddio fel data o ansawdd isel.

(!) Mae'r data'n seiliedig ar rhwng 25 a 40 o ymatebion yn fras a chaiff ei gategoreiddio fel data o ansawdd cyfyngedig.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Young people not in education, employment or training \(NEET\) \(Year to 31 March 2013\)](#), 24 Gorffennaf. Tabl 3 [fel ar 24 Gorffennaf 2013]

²⁶ Cyhoeddwyd [erthygl](#) yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng ystadegau o'r fath ledled y DU gan yr ONS ym mis Mai 2013, ochr yn ochr â'i chyhoeddiad cyntaf o amcangyfrifon y DU o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

5.2. Twf economaidd y DU

Mae rhai o'r dulliau polisi pwysicaf ar gyfer dylanwadu ar nifer y bobl ifanc sydd mewn cyflogaeth wedi'u cadw'n ôl gan San Steffan, er enghraifft polisi ariannol cyffredinol y DU, a pholisi a diwygio lles.

Yn ôl ffigurau'r Datganiad Ystadegol Cyntaf (Tabl 1 yn gynharach yn y papur hwn), cododd cyfran y **bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed** nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i **uchafbwynt o 12.4 y cant yn 2008 a 2009** ac i 12.2 y cant yn 2011 cyn **gostwng i 10.2 y cant yn 2012**.²⁷ Dengys ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mai yn **2008 (Chwarter 4) a Chwarter 2 2009 y cyrhaeddodd y gyfradd y lefel uchaf erioed (tan hynny), sef 12.9 y cant**. Amrywiodd y cyfraddau ar lefelau ychydig yn is drwy gydol 2010 a'r rhan fwyaf o 2011, cyn cyrraedd **uchafbwynt o 13.5 y cant yn Chwarter 4 2011** ac yna ostwng yn raddol i'r **lefel ddiweddaraf, sef 10.9 y cant, yn Chwarter 1 2013**.²⁸

O ran gwerthuso pam na chyrhaeddwyd y targed o sicrhau bod 93 y cant o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2010, a'r rhesymau dros y tueddiadau yn y grwpiau oedran 16-18 a 19-24, mae'n bwysig nodi cyd-destun yr hyn a ddigwyddodd i economi'r DU yn ystod y cyfnod hwnnw. **Yn Nhabl 11 isod nodir y cyfraddau chwarterol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o'r Bwletin Ystadegol (data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) ochr yn ochr â chyfraddau twf chwarterol y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) ar gyfer economi'r DU.**

Ymddengys fod yr effaith yn sgil dirwasgiad 2008 a 2009 wedi'i theimlo fwyaf gan bobl ifanc 19 i 24 oed. Gan fod cyflogaeth yn aml yn cael ei hystyried yn 'ddangosydd sydd ar ei hôl hi'²⁹, nid yw effaith lawn twf economaidd bach neu negyddol yn tueddu i gael ei theimlo am sawl chwarter wedi hynny. **Dengys Tabl 11 fod canran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi codi o 16.9 y cant yn Chwarter 3 2008 i 21 y cant erbyn Chwarter 4 2009 ac nad yw'r ganran wedi bod yn is na'r lefel honno ers hynny. Drwy gydol y cyfnod hwn, nid yw'r twf economaidd fesul chwarter, fel y'i mesurir gan gynnydd mewn CMC, wedi bod yn fwy nag 1 y cant a gwelwyd sawl chwarter ers y dirwasgiad lle mae'r economi wedi crebachu neu heb dyfu o gwbl.**

²⁷ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf 117/2013, *Participation of young people in education and the labour market (year end 2011 and 2012 (provisional))*, Tabl 2, 24 Gorffennaf [fel ar 24 Gorffennaf 2013]

²⁸ Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol, *Young people not in education, employment or training (NEET) (Year to 31 March 2013)*, 24 Gorffennaf 2013, Tabl 2 [fel ar 25 Gorffennaf 2013]

²⁹ Yr Athro Michael Kuczynski, *Unemployment is a lagging indicator*, Tudalen Llythyrau'r Financial Times, 9 Awst 2013 [fel ar 21 Awst 2013]

Efallai mai dyma'r rheswm pam mae'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer lleihau'r lefelau ymysg pobl ifanc 19 i 24 oed yn amodol ar y cyfraddau yn y DU, ac felly ar berfformiad cyffredinol economi'r DU. O gofio mai Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb dros gyfeiriad cyffredinol yr economi a thros gyfraddau twf economaidd, mae ffactorau sy'n berthnasol i'r DU gyfan yn dylanwadu rhywfaint ar nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Gellid dadlau bod hyn yn arbennig o wir am yr ystod oedran 19-24, lle mae polisïau ac amgylchiadau economaidd yn effeithio mwy ar bobl ifanc, a bod pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn cael eu dylanwadu'n fwy gan ymyriadau addysg a hyfforddiant.

Tabl 11: Nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fesul chwarter, ochr yn ochr â thwf economaidd y DU

	<i>canran</i>		
	Pobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Pobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Twf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth fesul Chwarter (CVM SA)
2006 Q1	11.8	18.0	0.4
2006 Q2	10.8	17.8	0.3
2006 Q3	11.4	18.7	0.2
2006 Q4	10.3	18.6	0.8
2007 Q1	10.3	18.6	1.0
2007 Q2	11.6	18.4	1.3
2007 Q3	12.3	18.0	1.2
2007 Q4	12.5	17.6	0.1
2008 Q1	12.0	17.4	0.1
2008 Q2	11.8	17.0	-0.9
2008 Q3	12.2	16.9	-1.4
2008 Q4	12.9	17.5	-2.1
2009 Q1	12.2	18.7	-2.5
2009 Q2	12.9	19.1	-0.4
2009 Q3	12.0	19.5	0.0
2009 Q4	12.1	21.0	0.4
2010 Q1	12.6	22.3	0.5
2010 Q2	11.5	22.1	1.0
2010 Q3	12.3	22.8	0.4
2010 Q4	11.4	23.1	-0.2
2011 Q1	12.5	23.0	0.5
2011 Q2	12.7	23.3	0.1
2011 Q3	12.7	23.2	0.6
2011 Q4	13.2	22.1	-0.1
2012 Q1	13.5	22.9	0.0
2012 Q2	13.0	23.7	-0.5
2012 Q3	12.7	22.9	0.7
2012 Q4	11.8	22.9	-0.2
2013 Q1	10.9	21.3	0.3

Nodiadau: CVM: mesurau gwerth cadwyn. SA: Wedi'i addasu yn ôl tymor

Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth: cyflwynwyd ym Mwletyn Ystadegol Llywodraeth Cymru, [Young people not in education, employment or training \(NEET\) \(Year to 31 March 2013\)](#), 24 Gorffennaf 2013, Tabl 2 [fel ar 24 Gorffennaf 2013]; Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Quarterly National Accounts, Q1 2013 Dataset](#), 27 Mehefin 2013 [fel ar 25 Gorffennaf 2013]

5.3. *Polisiâu Llywodraeth y DU*

5.3.1. *Y Rhaglen Waith*

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith yn 2011 a dyma brif bolisi Llywodraeth y DU ar gyfer trosglwyddo pobl o fudd-dal i waith. Disodlodd nifer o gynlluniau blaenorol fel yr Ardaloedd Cyflogaeth, y Fargen Newydd, y Fargen Newydd Hyblyg a Chronfa Swyddi'r Dyfodol. **Ynghyd â'r Credyd Cynhwysol, mae'r Rhaglen Waith yn elfen bwysig o drefniadau diwygio lles y Llywodraeth glymblaid.**

Mae'r Rhaglen Waith yn canolbwyntio ar bobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu sydd mewn perygl o syrthio i'r categori hwnnw. Cyfeiria bobl at ystod o sefydliadau yn y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus, sy'n cael eu hadnabod fel darparwyr, sy'n cael eu talu'n bennaf am ganlyniadau. Caiff y rhan fwyaf o'r taliad ei dderbyn pan fydd pobl yn cael eu rhoi mewn swydd ac yn aros mewn swydd. Dywed Llywodraeth y DU fod hyn yn gweithio'n well i'r di-waith ac yn sicrhau gwell gwerth am arian i'r trethdalwr.³⁰

Mae effeithiolrwydd y Rhaglen Waith wedi cael ei feirniadu gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU. Canfu'r pwyllgor hwnnw mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2013 ei bod yn cyflawni llai na'r disgwyl. Dywedodd fod y rhaglen yn ystod y pedwar mis ar ddeg cyntaf rhwng Mehefin 2011 a Gorffennaf 2012 wedi cyflawni'r canlynol:

Overall, only 3.6% of claimants on the Programme moved off benefit and into sustained employment, less than a third of the 11.9% the Department expected to achieve, and well below the Department's own estimate of what would have happened if there had been no Work Programme running at all.³¹

5.3.2. *Y Contract Ieuentid*

Ymateb Llywodraeth y DU i her benodol diweithdra ymysg ieuentid yw'r **Contract Ieuentid** ac mae'n rhaglen gwerth £1 biliwn sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gyflogaeth. Dywed Llywodraeth y DU y bydd y cynllun, a lansiwyd ym mis Ebrill 2012, yn darparu **410,000 o gyfleoedd newydd i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed dros gyfnod o dair blynedd**, gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith gwirfoddol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth i fusnesau sy'n cyflogi person ifanc rhwng 18 a 24 oed sydd wedi bod yn ddi-waith ers chwe mis neu fwy drwy'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Rhaglen Waith. Mae hyn ar ffurf **cymhorthdal cyflog gwerth £2,275 ar gyfer pob cyflogai cymwys**. Menter arwyddocaol arall o dan y Contract Ieuentid yw'r cynnig o leoliadau profiad gwaith i bobl ifanc.

³⁰ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, *The Work Programme: The first year*, Tachwedd 2012, t2 [fel ar 26 Gorffennaf 2013]

³¹ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, *Department for Work and Pensions: Work Programme outcome statistics*, Trydydd adroddiad ar ddeg ar hugain sesiwn 2012-2013, Chwefror 2013, t3 [fel ar 26 Gorffennaf 2013]

Dangosodd ystadegau a ryddhawyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod **21,460 o swyddi cymhelliant cyflog wedi cael eu creu rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mai 2013**, ac y gwnaethpwyd **4,690 o daliadau cymhelliant cyflog i fusnesau rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mai 2013**. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi bod digon o gyllid i alluogi 160,000 o gymhellion cyflog i gael eu talu dros gyfnod tair blynedd y Contract Ieuencid, sef oddeutu 53,000 o fentrau y flwyddyn.³²

5.3.3. Cynyddu oedran cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant yn Lloegr

Yn sgil *Deddf Addysg a Sgiliau 2008*, mae'r oedran pan na ddisgwylir i bobl ifanc barhau i gyfranogi mewn addysg yn Lloegr yn codi i 17 yn 2013 ac i 18 yn 2015, Golyga hyn y **bydd yn ofynnol i bobl ifanc yn Lloegr aros mewn addysg neu hyfforddiant hyd ddiwedd y flwyddyn academiaidd pan fyddant yn cyrraedd 17 oed yn 2013 a hyd ddiwedd y flwyddyn academiaidd pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed o 2015 ymlaen**. Yn ymarferol, nid yw hyn yn golygu y disgwylir i bobl ifanc aros yn yr ysgol neu mewn addysg academiaidd draddodiadol am gyfnod hwy; yn hytrach cânt 'gynnig addas' i barhau â'u haddysg neu hyfforddiant.

Mae'r diffiniad o 'gynnig addas' fel a ganlyn:

- lle ar gwrs penodol mewn ysgol, coleg, gyda darparwr annibynnol, neu brentisiaeth;
- bydd yn cynnwys yr elfen hyfforddi a lleoliad gwaith lle mae hyn yn un o amodau derbyn y lle;
- bydd yn briodol i anghenion unigol y person ifanc - mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cynnig fod ar y lefel gywir, yn y lleoliad daearyddol cywir, yn y sector galwedigaethol cywir a bod y dull dysgu'n gywir;
- bydd yn cynnwys dyddiad dechrau y cytunir arno.³³

Yng Nghymru, annog pobl ifanc i barhau ag addysg neu hyfforddiant y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn hytrach na phasio deddfau er mwyn gwneud hyn yn orfodol. Pan gyflwynwyd y cynigion gyntaf yn Lloegr ar y pwnc hwn yn 2007, dywedodd y Prif Weinidog Carwyn Jones, a fu'n Weinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg am gyfnod byr rhwng etholiad y Cynulliad chyn i'r glymblaid Cymru'n Un gael ei ffurfio, yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Gorffennaf 2007:

Mae yna gynigion i godi oedran gadael yr ysgol i 18 yn Lloegr. Nid yw'r cynigion hynny'n cael eu cynnig yng Nghymru. Mae gennym ein cynllun llwybrau dysgu 14-19, a chredwn ei bod yn well annog dysgwyr i barhau ar ôl cyrraedd 16 oed, yn hytrach na'u gorfodi i aros.

³² Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Datganiad newyddion, [Businesses offer 21,000 jobs with support of wage incentive, 22 Gorffennaf 2013](#) [fel ar 21 Awst 2013]

³³ Adran Addysg (Lloegr), [FAQs: education or training offers for 16- to 17-year-olds](#), Diweddarwyd 27 Mehefin 2013, [fel ar 26 Gorffennaf 2013]

Ychwanegodd:

Mae'r ffordd y defnyddir y gair 'annog' yn bwysig. Mae arnom eisiau annog pobl ifanc, rhwng 14 a 19 oed—sy'n hŷn na'r oed ysgol gorfodol—i fentro i fyd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Credaf y gallwn fod yn llwyddiannus wrth gynyddu nifer y bobl ifanc nad ydynt yn yr un o'r categorïau hynny ar hyn o bryd. Ni chredaf y byddai gorfodi'n gweithio yn hynny oherwydd, a bod yn onest, oni ellir annog pobl ifanc i aros, byddant yn tueddu i beidio ag aros beth bynnag, ni waeth beth a ddywed y gyfraith. Fel yr oeddwn yn dweud, deallaf y dadleuon dros godi oed gadael yr ysgol i 18, ond nid wyf yn credu bod y dadleuon hynny'n dal dŵr o'u cymharu â'r anafteision.³⁴

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn monitro effaith codi oedran cyfranogi gorfodol ar nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Lloegr. Dywedodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, wrth y Pwyllgor Menter a Busnes ar 17 Hydref 2012:

'To add a point in respect of England, they are moving to a situation where it will become compulsory to remain in education to the age of 18; this year, it is to the age of 17—I think that it is to the age of 18 by 2015. We do not yet know the outcome of that in terms of its impact on figures for young people not in education, employment or training, or whether it has, as an experiment, been successful in its own terms. That is something that we want to keep an eye on and learn from.'³⁵

Yn ogystal, er nad yw Llywodraeth Cymru yn gorfodi pobl ifanc i aros mewn addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oedran gorfodol presennol yng Nghymru, sef 16 oed, mae'n gwarantu y bydd opsiwn ar gael i bobl ifanc sydd eisiau hynny. Ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd Leighton Andrews yn y Cyfarfod Llawn:

'Rwyf hefyd am gyflwyno ledled Cymru sicrwydd o addysg neu gyfle hyfforddi i bob person ifanc 16 i 18 oed. Byddaf yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i bob person ifanc pan fyddant yn cwblhau blwyddyn 11, a bydd Gyrfa Cymru, drwy'r broses ymgeisio gyffredin y mae'n ei threialu ar hyn o bryd, yn cefnogi'r broses.'³⁶

Un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio annog pobl ifanc i aros mewn addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i 16 oed yw drwy deilwra darpariaeth sy'n fwy addas i'w hanghenion. Yn sgil *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* ehangwyd y dewis o opsiynau addysg a hyfforddiant i bobl ifanc drwy sicrhau bod o leiaf 30 o gyrsiau ar lefel 3 ar gael i fyfyrwyr rhwng 16 a 18 oed.

³⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion \[t21-22\]](#), 11 Gorffennaf 2007 [fel ar 26 Gorffennaf 2013]

³⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Menter a Busnes, [Cofnod y Trafodion \[para 69\]](#), 17 Hydref 2012, [fel ar 22 Awst 2013]

³⁶ Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Ymgysylltu a Datblygiad Ieuencid](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 23 Ebrill 2013 [fel ar 26 Gorffennaf 2013]

6. Y cyd-destun Ewropeaidd

Pan ryddhawyd Adroddiad Blynyddol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym mis Mehefin 2013, dywedodd ei Ddirprwy Gyfarwyddwr Addysg a Sgiliau, Andreas Schleicher, mai'r **nifer sylweddol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant yw'r her fwyaf i'r DU.**³⁷ Er ei bod yn wir bod y lefelau yn y DU yn destun pryder a chaiff hyn ei gydnabod gan bob un o'i llywodraethu, mae'n ddefnyddiol cyfeirio at gyd-destun **diweithdra uchel ymysg ieuenctid ledled Ewrop.**

Yn ôl ffigurau a ryddhawyd gan [Eurostat](#), asiantaeth ystadegau'r Undeb Ewropeaidd (UE), roedd cyfradd diweithdra ymysg ieuenctid (dan 25 oed) y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn **23.2 y cant yn 27 o wledydd yr UE ym mis Mai 2013.** Mae hyn yn cymharu â **21.3 y cant yn y DU.** Y gwledydd oedd â'r cyfraddau uchaf o ddiweithdra ymysg ieuenctid yn yr UE oedd Groeg (62.9 y cant) a Sbaen (55.7 y cant) ac roedd y lefelau mor isel â 7.7 y cant yn yr Almaen ac 8.6 y cant yn Awstria.³⁸

Yn ôl y wybodaeth sydd ar gael gan [StatsCymru](#), roedd diweithdra ymysg ieuenctid yn 22.2 y cant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013. **Mae gan nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru gyfraddau diweithdra ymysg ieuenctid sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, y DU a'r UE,** er enghraifft Blaenau Gwent (39.5 y cant), Torfaen (34.9 y cant) a Rhondda Cynon Taf (31.2 y cant), sydd oll yn seiliedig ar y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013.³⁹

Mae'r her o fynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid yn y DU, sy'n broblem fawr ac sydd ar gynydd, ar frig agenda wleidyddol ac agenda economaidd ei sefydliadau. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd ar 27-28 Mehefin 2013 cytunwyd ar gynllun i fynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid sy'n cynnwys gweithredu Menter Cyflogaeth i Bobl Ifanc a Chynllun Gwarant i Bobl Ifanc.

Cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd [ddatganiad i'r wasg](#) ar 28 Mehefin 2013 yn rhoi manylion yr hyn y cytunwyd arno. Gan ei fod yn ymwneud â dyrannu cyllid, gan gynnwys newidiadau i Reoliadau'r Cronfeydd Strwythurol 2014-2010, mae'n amodol ar gymeradwyaeth Senedd Ewrop.

³⁷ Newyddion y BBC, [OECD jobs fear for unqualified youth](#), 25 Mehefin 2013 [fel ar 23 Gorffennaf 2013]

³⁸ Eurostat Data Explorer, [Unemployment rate by sex and age groups - monthly average, % \(Age = less than 25 years\)](#), 22 Awst 2013 [fel ar 28 Awst 2013]

³⁹ Stats Cymru, [ILO unemployment rates by Welsh local areas and year \(aged 16-24\)](#) [fel ar 21 Awst 2013]

6.1. Cynlluniau Gwarant i Bobl Ifanc

O dan y cynllun Gwarant i Bobl Ifanc, mae aelod-wladwriaethau'r UE yn ymrwymedig i sicrhau bod pob person ifanc hyd 25 oed yn cael cynnig swydd, prentisiaeth neu hyfforddiant o ansawdd da o fewn pedwar mis o fod yn ddi-waith neu adael addysg ffurfiol.

Bydd yr UE yn helpu aelod-wladwriaethau i ariannu'r cynlluniau Gwarant i Bobl Ifanc drwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE, sef y Fenter Cyflogaeth i Bobl Ifanc.

6.2. Y Fenter Cyflogaeth i Bobl Ifanc

Yn y Cyngor, cytunodd arweinwyr y DU i roi'r arian mwyaf ar y dechrau o ran y swm o 6 biliwn EUR sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y Fenter Cyflogaeth i Bobl Ifanc er mwyn i'r cronfeydd hyn fod ar gael yn 2014-2016, h.y yn ystod dwy flynedd gyntaf y Fframwaith Ariannol Amlflwydd yn hytrach na chael ei ledaenu dros gyfnod saith mlynedd y rhaglen gyfan.

Addawodd y Cyngor y byddai'r Rhaglen Cyflogaeth i Bobl Ifanc yn gwbl weithredol erbyn mis Ionawr 2014. Rhanbarthau'r UE lle mae'r cyfraddau diweithdra ymysg ieuenctid yn uwch na 25 y cant fydd y rhanbarthau cyntaf i dderbyn alldaliadau o dan y Fenter. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i'r aelod-wladwriaeth sy'n fuddiolwr fabwysiadu cynlluniau i fynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid, gan gynnwys gweithredu'r Warrant i Bobl Ifanc, cyn diwedd y flwyddyn. Caiff gwledydd eraill eu hannog i fabwysiadu cynlluniau o'r fath yn 2014.

Mae pennu'r trothwy 25 y cant ar gyfer cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ardaloedd o fewn yr UE sydd â lefelau uchel o ddiweithdra ymysg ieuenctid yn rhoi Cymru y tu allan i'r meini prawf cymhwysra. Yn y ddau ranbarth NUTS2 yng Nghymru⁴⁰, sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, roedd y cyfraddau diweithdra ymysg ieuenctid yn 21.5 y cant ac yn 23.2 y cant yn y drefn honno yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013.⁴¹

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellir defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid yng Nghymru. Yn wir, diweithdra ymysg ieuenctid yw un o flaenoriaethau'r Rhaglenni Gweithredol Drafft ar gyfer [Gorllewin Cymru a'r Cymoedd](#) a [Dwyrain Cymru](#) yn y rownd nesaf rhwng 2014 a 2020.

⁴⁰ Mae dadansoddiad Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (NUTS) yn rhoi un dadansoddiad unfurf er mwyn cynhyrchu ystadegau rhanbarthol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Mae tair lefel NUTS yn y DU, sef:

- NUTS 1: Rhanbarthau Swyddfa'r Llywodraeth a'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

- NUTS 2: 37 o ardaloedd, y cyfeirir atynt yn aml fel is-ranbarthau. Y 2 ranbarth NUTS2 yng Nghymru yw Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

- NUTS 3: 133 o ardaloedd, yn gyffredinol grwpiau o awdurdodau neu ranbarthau unedol, sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel ardaloedd lleol.

⁴¹ Stats Cymru, [ILO unemployment rates by Welsh local areas and year \(aged 16-24\)](#) [fel ar 21 Awst 2013]

7. Y rhesymau a'r risgiau

Mae cryn dipyn o waith ymchwil wedi'i wneud i'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn syrthio i'r categori o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hyn.

Yn 2010, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio yn Lloegr adroddiad yn dwyn y teitl [***Against the odds: Re-engaging young people in education, employment or training***](#), a dynnodd ar waith ymchwil gyda 24,000 o bobl ifanc i nodi nifer o ffactorau risg a oedd yn cynyddu'r siawns na fyddai person ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Rhestrir y ffactorau hyn, ynghyd â'r cynnydd yn y siawns na fyddai person ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant am chwe mis neu fwy isod:

- Peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o leiaf unwaith o'r blaen: *7.9 gwaith yn fwy tebygol*
- Beichiogrwydd neu fod yn rhiant: *2.8 gwaith yn fwy tebygol*
- Goruchwyliaeth gan dîm troseddau ieuencid: *2.6 gwaith yn fwy tebygol*
- Llai na thri mis o addysg ôl-16: *2.3 gwaith yn fwy tebygol*
- Camdefnyddio sylweddau: *2.1 gwaith yn fwy tebygol*
- Cyfrifoldebau fel gofalwr: *2.0 gwaith yn fwy tebygol*⁴²

Dadansoddodd adroddiad y Comisiwn Archwilio yn 2010 faint o amser y mae pobl ifanc yn ei dreulio y tu allan i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, yn seiliedig ar ymchwil gyda'r sampl o 24,000 o bobl. **Adroddodd nad oedd 75 y cant o bobl ifanc erioed yn cael profiad ohono.** O blith y 25 y cant arall a fyddai'n cael profiad o'r fath roedd hyd y cyfnod pan nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel a ganlyn:

- 2 y cant: *hyd at wythnos*
- 9 y cant: *rhwng un wythnos ac un mis*
- 25 y cant: *rhwng un mis a thri mis*
- 21 y cant: *rhwng tri mis a chwe mis*
- 43 y cant: *chwe mis neu fwy*⁴³

Dadleuodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2006 gan yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau yn Lloegr fod angen i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gael eu gweld fel grŵp heterogenaidd. Fodd bynnag, **nododd ddau grŵp a alwodd yn grwpiau 'craidd/cenedlaethau' a 'cyfnewidiol'**

⁴² Y Comisiwn Archwilio, [***Against all odds: Re-engaging young people in education, employment or training***](#), Gorffennaf 2010, t19 [fel ar 22 Awst 2013]

⁴³ *Ibid*, t19 [fel ar 22 Awst 2013]

Core NEETs ... are more likely to have social and behavioural problems, often coming from troubled and dysfunctional families. This group comprises the 'Generational NEETs'—young people who come from families where the accepted norm for adults is to be unemployed. The consensus among respondents [research carried out in Yorkshire and Humber] was that the Core NEETs require intensive and long-term support to overcome their problems and engage with EET.

'Floating NEETs ... may find themselves lacking direction and motivation have a tendency to move in and out of the NEET group, engaging in seasonal, low paid and sometimes illegal work, or short courses, thus creating NEET churn. The respondents felt that helping this group is generally easier, as they tend to require short-term support and encouragement to engage with employment and/or education.⁴⁴

Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth am y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â pheidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar gyfer Cyngor Sir Caergrawnt ym mis Tachwedd 2011, gan ysgolheigion ym Mhrifysgol Anglia Ruskin. Mae'r ddau brif ffactor a nodwyd yn gymharol hysbys a cheir tystiolaeth helaeth ohonynt: **cyflawniad addysgol gwael a statws economaidd-gymdeithasol isel.**

Dangosodd dadansoddiad o gohort geni 1970 a gynhaliwyd gan John Bynner a Samantha Parsons yn 2002 fod **pobl ifanc heb gymwysterau chwe gwaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o gymharu â'r rhai â chymwysterau.** Canfu Bynner a Parsons hefyd fod pobl ifanc o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn wynebu risg sylweddol a chanfu astudiaeth David Raffe o bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol yn yr Alban yn 2003 bod a wnelo peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn bennaf ag anfantais gymdeithasol.⁴⁵

Yn ogystal â'r ffactorau risg 'nodweddiadol' hyn, nodwyd nifer o ddylanwadau eraill yn Sachdev et al (yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau) a oedd yn cynnwys:

- Problemau cymdeithasol ac ymddygiadol
- Profiadau negyddol o addysg a hyfforddiant
- Anallu i ddirnad manteision hirdymor addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Diffyg cymorth gan y teulu
- Diffyg gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael a sut i ddechrau dilyn galwedigaethau penodol
- Diffyg hunanhyder, hunan-fri a dyhead
- Rhwystrau rhag ymuno â'r farchnad lafur
- Dim digon o gymhelliant ariannol

⁴⁴ Sachdev, D., Harries B. and Roberts, T. (2006) *Regional and sub-regional variation in NEETs – reasons, remedies and impact*, Yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau, t45 [fel ar 21 Awst 2003]

⁴⁵ Dyfnir gwaith Bynner a Parsons, a Raffe yn Sadler, K. et al, (2011) *Risk factors associated with becoming NEETs: A review of the literature applied to the demographics of the Fenland Area*, Prifysgol Anglia Ruskin, t5-6 [fel ar 18 Gorffennaf 2013]

8. I gloi: Mynd i'r afael â phroblemau'n gynnar a thracio unigolion sydd mewn perygl

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn dymuno canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o oedran cynnar. Adlewyrcha hyn ymdrechion i liniaru llawer o'r risgiau a nodwyd yn y bennod flaenorol, fel y disgrifir gan Leighton Andrews, y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau, ym mis Ebrill 2013:

'Mae gormod o bobl ifanc sy'n ymddieithrio o addysg a hyfforddiant prif ffrwd pan fyddant yn 16, yn 17 neu'n 18 oed, fodd bynnag. Mae profiadau cyn-ysgol, cynradd ac uwchradd, a'r teulu a'r cartref, wrth gwrs, yn effeithio gryn dipyn ar ymddygiad a chyrhaeddiad pobl ifanc. Mae mwy o fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, a chefnogaeth trwy Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, yn cael ei dargedu i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn drwy ymyrraeth gynnar.⁴⁶

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno cyflwyno **gwell dull o dracio unigolion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**. Dywedodd Leighton Andrews wrth y Pwyllgor Menter a Busnes ar 17 Hydref 2012:

'What is really important here is that we have a system that, when we have identified at an earlier age young people who are in danger of ending up out of education, employment or training, means that there is one responsible adult, whether in the careers service, the youth service, the education system or elsewhere, who has responsibility. That person might change over time, but they would have a responsibility for tracking the development of the young person and the opportunities open to them and would look very intently at providing them with the support that they need.'

Ychwanegodd Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, **y gellid adnabod pobl ifanc mor ifanc â saith oed fel rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant pan fyddent yn hyn**.⁴⁷

Yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill 2013, rhoddodd Leighton Andrews ragor o fanylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru i dracio pobl ifanc yn fath fodd gan ddweud:

'Fy uchelgais yw gweld gweithiwr arweiniol ym mhob awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu ymateb personol ac uniongyrchol i'r bobl ifanc hynny y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio, yn gweithredu fel brocer iddynt i sicrhau y cânt y lefel iawn o gymorth i'w helpu i ddatblygu.

...

Byddwn yn diffinio'r rôl, y safonau a'r canlyniadau sydd eu hangen, ac yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gydlynu cyflwyno'r ddarpariaeth hon o fewn eu hardaloedd eu hunain.⁴⁸

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Ymgysylltu a Datblygiad Ieuencid](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 23 Ebrill 2013 [fel ar 23 Awst 2013]

⁴⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Menter a Busnes, [Cofnod y Trafodion \[paragraffau 72-75\]](#), 17 Hydref 2012, [fel ar 22 Awst 2013]

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Ymgysylltu a Datblygiad Ieuencid](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 23 Ebrill 2013 [fel ar 23 Awst 2013]

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod rôl awdurdodau lleol yn hollbwysig i nodi a chymryd camau i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dangosir hyn drwy rôl ganolog arfaethedig llywodraeth leol yn y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu newydd ar Ymgysylltu a Datblygiad Ieuencid. Yn ogystal, mae'r Fframwaith wedi cael ei ddatblygu drwy gydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru ac wyth awdurdod lleol⁴⁹ i ddatblygu a phrofi gwahanol agweddau ar y Fframwaith.

Yn ei Hadroddiad Penderfyniad yn cyhoeddi bod y Fframwaith wedi'i gymeradwyo i'w gyhoeddi ym mis Medi 2013, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i adeiladu ar ddulliau gweithredu lleol effeithiol a dysgu ohonynt, a'i bod wedi datblygu'r cynllun gweithredu ar y sail honno.⁵⁰

I grynhoi, mae'r mater hwn yn amlwg yn her hirdymor ac mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi bod yn ystadegyn arbennig o ystyfnig. Yn ogystal, nid yw'r broblem hon yn unigryw i Gymru ac mae rhai o'r dylanwadu a'r atebion y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac maent yn dibynnu ar ffactorau economaidd sy'n berthnasol i'r DU gyfan.

Serch hynny, gellir dod i rai casgliadau allweddol. Yn gyntaf, **mae'r lefelau yng Nghymru wedi bod yn gyson uwch na'r lefelau yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd.** Yn ail, mae'r cyfraddau'n cael eu dylanwadu gan amgylchiadau economaidd ehangach a thwf economiadd y DU, fel y dangosir gan y croesgyfeirio gyda newidiadau i'r CMC yn Nhabl 11.

Ymddengys fod yr hinsawdd economaidd yn cael mwy o ddylanwad ar y categori oedran 19-24 (yn arbennig dynion) sy'n ymddangos yn fwy anodd mynd i'r afael ag ef ac sy'n destun pryder mwy difrifol, gellid dadlau, mewn cyfnod o dwf economaidd bach. Fodd bynnag, oherwydd bod modd priodoli'r amrywiadau yn y grŵp oedran 19-24 i amodau economaidd i raddau helaeth, **gellid dadlau mai yn y grŵp oedran 16-18 y mae'r cyfraddau'n fwy anhydrin ac mai dyma yw gwraidd natur 'ystyfnig' y dangosydd hwn.** Dyma pam y credir bod ymyriadau ar y cyfle cyntaf posibl mor bwysig a hanfodol o ran mynd i'r afael â'r broblem hirdymor hon.

⁴⁹ Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Wrecsam.

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, [Youth Engagement and Progression Framework Implementation Plan](#) (Adroddiad ar Benderfyniad), 26 Gorffennaf 2013 [fel ar 23 Awst 2013]